# Cronfa Datblygu Staff WHELF – Canllawiau ymgeisio

**Beth wnawn ni ei gyllido**

· Digwyddiadau datblygu staff, neu OERs sy'n ysgogi, cefnogi a chysylltu â Nodau Strategol WHELF fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Gweithredu WHELF.

· Digwyddiadau, gweithgareddau neu OERs sy'n llywio ffyrdd y gall WHELF ddatblygu ac arloesi yn y dyfodol

· Datblygu, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth staff sy'n cynnig budd i'r amrywiaeth ehangaf o staff o fewn aelodaeth WHELF

· Digwyddiadau, gweithgareddau neu OERs sy'n cynnwys yr uchod i gyd ond sydd â photensial i estyn allan at bartneriaid llyfrgell eraill yng Nghymru a thu hwnt

**Beth na wnawn ni ei gyllido**

· Ffioedd a threuliau unigolion i fynychu digwyddiadau datblygu neu hyfforddi staff

· Gweithgareddau nad ydynt o fudd i aelodau WHELF yn yr ystyr ehangaf

· Prosiectau na arweinir gan rywun o sefydliad WHELF

· Prosiectau ymchwil unigol penodol

· Bwrsariaethau neu ffioedd cwrs ar gyfer cwrs israddedig neu ôl-raddedig

**Daearyddiaeth**

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sydd â'r cyrhaeddiad ehangaf yng Nghmru yn ddaearyddol a thechnolegol (gan gynnwys defnydd o fideogynadledda, Skype neu greu OERs) i aelod-sefydliadau WHELF.

**Cydraddoldeb**

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n cyrraedd y nifer mwyaf o staff mewn aelod-sefydliadau WHELF ar bob lefel, sy'n berthnasol iddynt ac sy'n cael effaith arnynt.

**Cyllid cyfatebol**

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sydd â mwy nag un ffynhonnell cyllid yn ogystal â chyllid WHELF.

**Monitro a Gwerthuso**

- Bydd angen gwerthuso'r holl brosiectau'n effeithiol i ddangos eu bod yn cyflawni'r buddion a nodir.
- Dychwelwch y ffurflen gais am gyllid wedi'i chwblhau i Swyddog Datblygu WHELF g.l.morris@swansea.ac.uk

**Prosesu taliadau**

- Gan fod taliadau'n cael eu prosesu drwy Brifysgol Aberystwyth (PA) rhaid iddynt gydymffurfio â rheoliadau ariannol PA a chânt eu hwyluso fel a ganlyn**:**
- Rhaid i bob archeb gael Archeb Brynu PA. Cysylltwch â Thrysorydd WHELF, Julie Hart ar ujh@aber.ac.uk i drafod.
- Lle bo'n bosibl dylai'r sefydliad arweiniol sy'n trefnu dalu'r costau gyda'r cyfanswm yn cael ei anfonebu i WHELF am ad-daliad. Dylid anfon yr anfonebau at Drysorydd WHELF.
- Dylid anfonebu am daliadau i unigolion o Gwmnïau Cyfyngedig sy'n gofrestredig gyda Thŷ'r Cwmnïau yn enw'r cwmni ac nid yr unigolyn, a dylid cyflwyno anfoneb i Drysorydd WHELF.
- Rhaid i unigolion hunangyflogedig neu mewn busnes bach nad yw'n Gwmni Cyfyngedig gwblhau holiadur CThEM i gadarnhau eu statws cyflogaeth: https://www.tax.service.gov.uk/check-employment-status-for-tax/setup cyn y gellir comisiynu unrhyw waith. Rhaid ebostio canlyniadau'r holiadur i Drysorydd WHELF. Mae cyllid yn ddibynnol ar gwblhau'r holiadur statws cyflogaeth a chymeradwyaeth gan Brifysgol Aberystwyth. Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais am gyllid yw cysylltu â'r darparwr i gwblhau'r ffurflen hon.
- Rhaid i Gynrychiolydd WHELF eich sefydliad gydlofnodi pob cais am gyllid.